Cynigion ar gyfer diwygio Rheoliadau (Asesu Effeithiau Amgylcheddol ar gyfer Dadgomisiynu) Adweithyddion Niwclear 1999 (EIADR99)

Cyhoeddir y ddogfen ymgynghori hon gan y Comisiwn Iechyd a Diogelwch er mwyn cydymffurfio â'i ddyletswydd i ymgynghori, o dan adrannau 16(2) a 50(3) Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974, â chyrff y cred eu bod yn briodol cyn cyflwyno cynigion ar gyfer gwneud Rheoliadau a chyhoeddi Codau Ymarfer a Gymeradwyir.

Dylid anfon sylwadau at:

Jason Batt
Specific Interventions Division 9
Health and Safety Executive
7NW, Rose Court
2 Southwark Bridge
London SE1 9HS
Ffôn: 020 7717 6876
Ffacs: 020 7717 6095
e-bost: eiadr.amendments@hse.gsi.gov.uk

I gyrraedd yr adran erbyn **31 Hydref 2005** fan bellaf

Mae'r Comisiwn yn ceisio sicrhau bod ei weithdrefn ymgynghori mor drylwyr ac agored â phosibl. Caiff ymatebion i'r ddogfen ymgynghori hon eu cyflwyno i Ganolfan Wybodaeth yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, lle y gall aelodau'r cyhoedd eu harolygu neu weld copïau ohonynt ar ôl talu'r ffi briodol i gwmpasu costau.

Gwahoddir ymatebion i'r ddogfen ymgynghori hon ar y sail bod unrhyw un sy'n eu cyflwyno yn cytuno yr ymdrinnir â'u hymateb yn y ffordd hon. Dim ond ar gais clir y person sy'n eu gwneud y caiff ymatebion, neu rannau ohonynt, eu celu o'r Ganolfan Wybodaeth (o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000; Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Deddf Diogelu Data 1998). Mewn achosion o'r fath, rhoddir nodyn ym mynegai'r ymatebion yn nodi'r bobl hynny sydd wedi gwneud sylwadau ac wedi gofyn i'w safbwyntiau, neu rannau ohonynt, gael eu trin yn gyfrinachol.

Mae llawer o systemau e-bost busnesau yn atodi paragraff yn awtomatig erbyn hyn yn nodi bod y neges yn gyfrinachol. Os ydych yn ymateb i'r ddogfen ymgynghori hon dros yr e-bost a'ch bod yn fodlon i'r cyhoedd gael gafael ar eich ymatebion, nodwch yn glir yng nghorff eich ymateb nad ydych am i unrhyw ddatganiad cyfrinachedd safonol fod yn gymwys

DOGFEN YMGYNGHORI

DOGFEN YMGYNGHORI AR GYNIGION AR GYFER DIWYGIO RHEOLIADAU (ASESU EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL AR GYFER DADGOMISIYNU) ADWEITHYDDION NIWCLEAR 1999 (EIADR99)

Cynnwys

DOGFEN YMGYNGHORI

Cyflwyniad
Cefndir
Crynodeb o'r Diwygiadau Arfaethedig
Amseru
Costau a buddiannau
Croesewir sylwadau

Atodiad 1

Rheoliadau (Asesu Effeithiau Amgylcheddol ar gyfer Dadgomisiynu) (Diwygio) Adweithyddion Niwclear Drafft 2006

Atodiad 2

Asesiad Effaith Reoleiddio

CYNNIG AR GYFER DIWYGIO RHEOLIADAU (ASESU EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL AR GYFER DADGOMISIYNU) ADWEITHYDDION NIWCLEAR 1999 (EIADR99)

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Ddogfen Ymgynghori hon yn ceisio sylwadau ar gynnig gan y Comisiwn Iechyd a Diogelwch (HSC) i ddiwygio Rheoliadau (Asesu Effeithiau Amgylcheddol ar gyfer Dadgomisiynu) Adweithyddion Niwclear 1999 (EIADR99).

CEFNDIR

2. Diben y rheoliad diwygio hwn yw cywiro dau wall argraffyddol a nodwyd gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol (JCSI); cyflawni mwy o eglurder ac effeithlonrwydd gweinyddol drwy arbedion costau; a gweithredu'r diwygiadau (perthnasol) a wnaed i gyfarwyddeb gychwynnol EIADR99; sef Cyfarwyddeb Asesu Effeithiau Amgylcheddol (EIA) 85/337/CE, fel y'i diwygiwyd gan 97/11/CE, gan Gyfarwyddeb 2003/35/CE.[1]

CRYNODEB O'R DIWYGIADAU ARFAETHEDIG

3. Er mwyn gweithredu'r diwygiadau hyn, mae'r HSC yn cynnig gwneud rheoliadau diwygio a'u henwi yn Rheoliadau (Asesu Effeithiau Amgylcheddol ar gyfer Dadgomisiynu) (Diwygio) Adweithyddion Niwclear 2006. Gellir gweld y rheoliadau drafft hyn yn Atodiad 1 y Ddogfen Ymgynghori hon.

Y gwallau argraffyddol a nodwyd gan JCSI

[1] Cyfarwyddeb 2003/35/CE (OJ:L156/17/2003) ar gyfranogiad y cyhoedd o ran llunio cynlluniau a rhaglenni penodol sy'n ymwneud â'r amgylchedd a diwygio o ran cyfranogiad y cyhoedd a mynediad i gyfiawnder Cyfarwyddebau'r Cyngor 85/337/EEC a 96/61/EC

4. Cywirir y rhain gan y diwygiadau arfaethedig yn 4(b) a 12 (6).

Diwygiad i gyflawni mwy o eglurder ac effeithlonrwydd gweinyddol

5. Cynigir y diwygiad i gyflawni hyn drwy ailddrafftio rheoliad 13(1). Ar hyn o bryd, mae rheoliad 13(1) EIADR99 yn rhoi'r cyfrifoldeb cychwynnol ar y deiliad trwydded i ystyried p'un a fyddai newid neu ymestyn prosiect dadgomisiynu yn cael effaith andwyol sylweddol ar yr amgylchedd (SAEE). Os bydd SAEE yn debygol, yna mae'n rhaid i'r deiliad trwydded wneud cais i HSE benderfynu p'un a fydd y prosiect dadgomisiynu yn ddarostyngedig i Asesiad Effeithiau Amgylcheddol (EIA). Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r prosiect dadgomisiynu cyfan gael ei ohirio tan i HSE wneud penderfyniad, ac ni all ailddechrau os bydd HSE yn penderfynu bod angen EIA, lle bydd ymgynghoriad cyhoeddus o dri mis, yn ddarostyngedig i ofynion rheoliad 13, yn ofynnol.

6. Mae'r dasg o ddiwygio rheoliad 13(1) yn rhoi'r opsiwn i HSE ystyried os bydd prosiect dadgomisiynu yn cael ei newid/ymestyn mewn modd sy'n cael effaith andwyol sylweddol ar yr amgylchedd, yna dim ond yn y rhan(nau) honno/hynny o'r safle yr effeithiwyd arni/arnynt fyddai'n ddarostyngedig i ofynion rheoliad 13. Felly, gallai gwaith ar rannau eraill o'r safle, nad effeithir arnynt gan y newid/estyniad hwn, barhau os bydd HSE yn penderfynu bod angen gohirio gwaith o'r fath.

Gweithredu'r diwygiadau (perthnasol) a wnaed i Gyfarwyddeb EIA

7. Er mwyn gweithredu'r newidiadau perthnasol a wnaed i gyfarwyddeb gychwynnol EIADR99; sef Cyfarwyddeb Asesu Effeithiau Amgylcheddol (EIA) 85/337/CE, fel y'i diwygiwyd gan 97/11/CE, gan Gyfarwyddeb 2003/35/CE, cynigir y diwygiadau canlynol:

- Dylid diwygio *Rheoliad 3(3)* er mwyn cael gwared â'r eithriad holl gynhwysfawr ar gyfer prosiectau amddiffyn a chael asesiad achos i achos yn ei le ar p'un a oes angen gwneud cais i EIADR;
- Dylid diwygio *Rheoliad 9(1)(a)* fel ei bod yn amlwg bod y prosiect dadgomisiynu yn ddarostyngedig i'r weithdrefn EIA;
- Mae angen diwygio *Rheoliad 11(c)* er mwyn cynnwys gwybodaeth am broses cynnwys y cyhoedd.

AMSERU

8. Os yw'r ymateb i'r cynnig ymgynghori hwn yn gadarnhaol yn gyffredinol, yna disgwyliwn i'r rheoliadau diwygio ddod i rym yn ystod gwanwyn 2006.

COSTAU A BUDDIANNAU

9. Manylir ar gostau a manteision y diwygiadau hyn yn yr Asesiad Effaith Reoleiddio (gweler Atodiad 2 y Ddogfen Ymgynghori hon).

10. Yn ei hanfod, nid oes unrhyw gostau nac arbedion ychwanegol yn sgîl y diwygiadau hyn yn ofynnol gan JCSI. Cynlluniwyd y rhain i gywiro gwallau argraffyddol.

11. Byddai'r diwygiad i Reoliad 13(1) yn awdurdodi HSE i ganiatáu gwaith i barhau ar unrhyw ran o safle y mae wedi penderfynu nad yw'n ddarostyngedig i unrhyw effeithiau andwyol sylweddol ar yr amgylchedd (SAEE) o ganlyniad i newid neu

estyniad i'r prosiect. Byddai'n ofynnol i waith gael ei ohirio ar unrhyw ran o'r safle y penderfynir ei bod yn ddarostyngedig i SAEE. Fodd bynnag, amcangyfrifir y byddai caniatáu i waith barhau ar unrhyw ran nad yw'n ddarostyngedig i SAEE yn arbed tua £40-£60 miliwn fesul safle i'r Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear a'r diwydiant niwclear.

12. Bydd y diwygiadau a ysgogir gan rai o'r newidiadau i gyfarwyddeb gychwynnol EIADR99 yn cyflwyno rhai costau gweinyddol ychwanegol i'r Weinyddiaeth Amddiffyn a HSE (er ein bod yn disgwyl i'r costau ar gyfer HSE gael eu hamsugno gan adnoddau presennol gyda'r Gyfarwyddiaeth Diogelwch Niwclear).

CROESEWIR SYLWADAU

13. Rydym eisoes wedi ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol yn ystod y broses o ddrafftio'r diwygiadau i EIADR99, a chredwn fod pobl yn eu derbyn yn gyffredinol.

14. Byddem yn croesawu unrhyw sylwadau gan bobl yr effeithir arnynt gan y diwygiadau a ddrafftiwyd i EIADR99, neu bobl â diddordeb ynddynt erbyn **31 Hydref 2005.**

Dylid anfon sylwadau (a/neu geisiadau am gopi papur o'r Ddogfen Ymgynghori) at:

Jason Batt
Specific Interventions Division 9
Health and Safety Executive
7NW, Rose Court
Southwark Bridge
LONDON
SE1 9HS

Ffôn: 020 7717 6876
Ffacs: 020 7717 6095
Ebost: eiadr.amendments@hse.gsi.gov.uk

……

Cwblhewch y ffurflen hon a'i hamgáu gyda'ch ateb i'r Cryno Ddisg hwn.

Yn eich barn chi, pa mor dda y mae'r Ddogfen Ymgynghori hon yn nodi'r diwygiadau i Reoliadau (Asesu Effeithiau Amgylcheddol ar gyfer Dadgomisiynu) Adweithyddion Niwclear 1999 (EIADR99)? [Ticiwch un blwch]	Da iawn Ddim yn dda	Da Gwael

Os mai 'Ddim yn dda' neu 'Gwael' yw eich ateb, allwch chi awgrymu ffyrdd o'i gwella ar gyfer y dyfodol? [Atodwch ddalenni ychwanegol os dymunwch]